COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD IAU, 2 MAWRTH 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | S J Griffiths |
| M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| G Walter | AJ Williams | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Lynne Berry | Rheolwr Grŵp Adfywio Tai a Chymuned |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

53. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Davies, Simon Griffiths, Martyn Jones, Ross Penhale-Thomas a Tim Thomas y byddai angen iddynt adael y cyfarfod yn gynnar.

Gwahoddedigion:
Ymddiheurodd y Cynghorydd Huw David, Arweinydd y Cyngor, y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

54. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

55. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD:

Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, dyddiedig 21 Gorffennaf 2022, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

56. Y GWEITHLU, RECRIWTIO A CHADW

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch recriwtio a chadw gweithlu'r Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Beth arall ellid ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebir gan y Cyngor o ran y gweithlu a rheoli disgwyliadau, oherwydd diffyg adnoddau i gyflawni'r ansawdd a'r safonau a ddymunir.
- Datblygu Cynllun Gweithlu Strategol a Chynllun Cyflawni.
- Yr amser sy’n mynd heibio rhwng gwneud cais a dechrau mewn swydd.
- Oedi a briodolir i wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a thystlythyrau sy’n hanfodol ar gyfer diogelu, adnewyddu a throsglwyddadwyedd y DBS.
- Capasiti Adnoddau Dynol (AD) a phwysigrwydd swyddogaethau’r swyddfa gefn i sicrhau bod y Cyngor yn rhedeg yn esmwyth, y model gweithredu yn AD a meincnodi blynyddol.
- Y berthynas waith rhwng Rheolwyr Grŵp Cyfarwyddiaeth ac AD i sicrhau prosesau effeithlon.
- Pryder ynghylch proffil oedran gweithwyr ac a oedd gweithwyr oedd wedi ymddeol yn dychwelyd drwy asiantaethau, y posibilrwydd o raglen atgyfeirio gweithwyr ac arolygon ynghylch y broses recriwtio.
- Y Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer Personél y Lluoedd Arfog, ymgysylltu â chyn-filwyr a hyrwyddo’r Cyngor fel cyflogwr da, ei bolisi cyfeillgar i’r teulu, ei drefniadau pensiwn da a’i ragolygon datblygu gyrfa.
- Heriau recriwtio i rolau penodol gan gynnwys athrawon sy'n siarad Cymraeg ac a allai Polisi Tâl Atodol ar sail y Farchnad gynorthwyo gyda recriwtio.
- Pwysigrwydd defnydd cyson o gyfweliadau ymadael yn yr Awdurdod a dadansoddiad ystyrlon o'r wybodaeth a gasglwyd.
- Y trefniadau ariannu a nifer y graddedigion sy'n cael eu recriwtio drwy'r cynlluniau graddedigion a chynlluniau i ddatblygu recriwtio drwy brentisiaethau.
- Gweithio gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion i ddenu pobl i ofal cymdeithasol a gyrfaoedd eraill yn y Cyngor, y gobaith o ddenu ffoaduriaid o'r Wcráin i swyddi a swyddi anodd eu llenwi megis contractau oriau cyfyngedig mewn arlwyo ysgolion.
- Cadw, recriwtio mewnol ac allanol, cynllunio olyniaeth a datblygiad a dilyniant gyrfa.
- Hysbysebu swyddi gwag ar wefan y Cyngor, recriwtio wedi'i dargedu a ffyrdd mwy dyfeisgar o hysbysebu.
- Y broses ymgeisio a’r defnydd o Bolisi Tâl Atodol y Farchnad a thrafodaeth ynghylch gwerthusiad cyflog Cymru gyfan ac adolygiad o ddisgrifiadau swydd.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn: |

1. I gydnabod y gwerth y gall cyn-filwyr ei gynnig i rolau’r Cyngor a Chynllun Gwarantu Cyfweliad y Cyngor ar gyfer Cyn-filwyr sy’n bodloni’r meini prawf hanfodol ar gyfer rôl, y dylid ystyried y ffordd orau o dargedu cyn-filwyr i’w hannog i wneud cais am swyddi gwag.

2. Cynnal adolygiad i ystyried yr amser sy'n mynd heibio rhwng ceisiadau i hysbysebion am swyddi a'r amser i'r gweithwyr newydd hynny ddechrau yn eu swyddi newydd.

a gofynnodd y Pwyllgor:

3. Am ymateb ysgrifenedig yn cadarnhau:

    a. A yw unrhyw rai o raddedigion y Cyngor yn cael eu hariannu o Gynllun Graddedigion Dinas-ranbarth Caerdydd (CCR); ac
    b. Os na, a fyddai unrhyw gyllid yn dod o Gynllun Graddedigion CCR i ariannu swyddi graddedigion yn y dyfodol; a
    c. Faint o raddedigion sy'n cael eu hariannu drwy Gynllun Graddedigion CCR sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol.

4. Dadansoddiad o'r cyfnodau amser pan gynhaliwyd y 144 o brentisiaethau.

Dadansoddiad o faint o weithwyr newydd a gwblhaodd eu cyfnod prawf o gyflogaeth a faint o weithwyr newydd a adawodd yr awdurdod yn ystod 12 mis cyntaf eu cyflogaeth.

57. CYNLLUN CYFLAWNI CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023- 24

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno syniadau cynnar i'r Pwyllgor ar Gynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2023-24, gwerthuso dewisiadau ac ystyried amserlenni ar gyfer datblygu a chyhoeddi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Symud i ffwrdd oddi wrth fesurau oedd yn edrych yn ôl i fesurau sy'n gyrru trawsnewid ymlaen, data tueddiadau i ddangos cynnydd a symudiad tuag at Ganlyniadau Gwrthrychol ac Allweddol (OKRs) i fesur llwyddiant yn y dyfodol.
- Pwysigrwydd ymagwedd gyson tuag at statws Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG) a'r adnoddau a'r offer angenrheidiol i gefnogi'r fframwaith rheoli perfformiad.
- Rhoi mesurau ar waith yr hoffai preswylwyr eu gweld yn cael eu defnyddio, yn seiliedig ar bethau sy'n bwysig iddynt.
- Y ffordd orau i symud y Ffyrdd newydd o Weithio ymlaen a'r camau nesaf wrth eu mesur.
- Pwysigrwydd mesur perfformiad mewn modd cymesur a manwl.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

5. Y dylai'r cynllun:

a. Symud i ffwrdd oddi wrth Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy’n edrych yn ôl ar yr hyn a ddigwyddodd ac edrych yn hytrach ar fesurau sy’n gyrru ymddygiad tuag at newid trawsffurfiannol, e.e.:
   i) Mesurau proses fusnes
   ii) Mesurau profiad y cwsmer
b. Cael cymorth cydweithwyr TGCh i helpi i gynhyrchu rhaglen ansawdd sy’n ei gwneud yn bosibl dadansoddi’n uniongyrchol ac yn brydlon unrhyw fesurau sy’n destun pryder; a
c. Dangos, ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau, ddull a dealltwriaeth gyson o statws RAG.

6. Rhoi ystyriaeth i gynnwys Canlyniadau Gwrthrychol ac Allweddol (OKR), sy’n aml yn rhoi’r cyd-destun i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a mesurau, a chynnwys saethau tueddiadau a all ddangos meysydd sydd wedi gwella a meysydd sydd wedi dirywio.

7. Gan gydnabod y bwriad i’r Cynllun Cyflawni fod wedi ei ganolbwyntio ar drigolion, y Swyddogion a’r Aelodau i gadw mewn cof bod eisiau i’r mesurau a ddatblygir fod yr hyn y byddai trigolion yn eu hystyried yn bwysig iddynt hwy.

a gofynnodd y Pwyllgor:
I’r Swyddogion fapio syniadau a’r hyn y mae awdurdodau eraill yn ei wneud i fesur beth yw’r ffordd orau i yrru’r ffyrdd gorau o weithio yn eu blaen a chyflwyno hyn i’r Aelodau yn Sesiwn Datblygu’r Aelodau i’w threfnu ar gyfer diwedd Ebrill 2023.

58. GRANT CYFLEUSTERAU I’R ANABL - ADRODDIAD CYNNYDD A DATGANIAD SEFYLLFA

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd i symud ymlaen gyda gwelliannau i’r gwasanaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) a rhoi gwybodaeth am y sefyllfa hyd yn hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid a bu’r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Nifer y bobl sy'n aros am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a'r rhesymau dros yr oedi hir.
- Y posibilrwydd o ddefnyddio sefydliadau trydydd parti, megis Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr, i gynorthwyo gyda'r ôl-groniad o waith addasu a'r model gweithredu newydd gan alluogi'r Cyngor i gymryd ymreolaeth dros y broses a dechrau gwneud cynnydd.
- A oedd achosion yn cael eu brysbennu i flaenoriaethu’r achosion mwyaf cymhleth ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed a’r cynllunio angenrheidiol ar gyfer addasiadau mwy.
- Polisi’r Awdurdod ar ychwanegu at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, beth sy’n digwydd i addasiadau mewn tai cymdeithasol pan fydd tenant yn symud allan neu’n marw, nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddyfarnwyd yn ôl deiliadaeth a bodolaeth cronfa ddata o eiddo wedi eu haddasu yn y Fwrdeistref.

- A yw'r Awdurdod mewn perygl o achosi costau ychwanegol oherwydd asesiadau o angen a wnaed gan therapyddion galwedigaethol (OT) a'r achosion o breswylwyr angen llety arall dros dro tra roedd gwaith helaeth yn cael ei wneud yn eu cartrefi.
- Pryderon ynghylch preswylwyr na allent gael eu rhyddhau o'r ysbyty tra'n aros am addasiadau i'r cartref ac yn achosi ôl-groniadau, gan fod yn rhaid derbyn atgyfeiriadau gan therapydd galwedigaethol a rhaid cynnal unrhyw asesiad yn y cartref i sicrhau'r addasiad priodol.
- Pwysigrwydd cyfathrebu gwell i sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu rheoli a datblygu taflen glir i fynd i'r afael ag ymholiadau a dryswch.
- Cyfathrebu â'r adran gynllunio a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod digon o eiddo hygyrch o fewn datblygiadau tai newydd.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

8. Nododd y Pwyllgor fod taflen wybodaeth yn cael ei chydgynhyrchu gyda Therapyddion Galwedigaethol yn rhoi gwybodaeth i'r ymgeiswyr am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ynghylch y manylion cyswllt a'r broses, a'u bod yn argymell ystyried ffyrdd eraill y gellid gwella cyfathrebu ag ymgeiswyr; gan gofio bod angen i'r wybodaeth fod ar gael i'r holl ymgeiswyr a'i bod yn gymorth i reoli eu disgwyliadau.

9. Sicrhau bod y wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn 10 uchod ar gael ar wefan y Cyngor.

a gofynnodd y Pwyllgor:
Am ddadansoddiad o nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddyfarnwyd fesul deiliadaeth dros y tair blynedd ddiwethaf.

59. <u>DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH</u>

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) i'r Pwyllgor yn Atodiad A i'w thrafod a'i hystyried, gofynnodd am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Pwyllgor ei chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion yr oedd arnynt eisiau iddynt fod yn bresennol, gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried yn y rhaglen gan ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a chyflwyno'r blaenraglenni gwaith ar gyfer Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 1, 2 a 3 fel Atodiadau B, C a D ar gyfer cydgysylltu a goruchwylio'r Flaenraglen Waith yn gyffredinol.

Dywedodd hefyd fod y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ynghlwm fel Atodiad E i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol a bod y Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion ar gyfer pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc hefyd ynghlwm fel Atodiadau F, G a H.

Ar ôl ystyried Diweddariad y Flaenraglen Waith, dywedodd y Pwyllgor yr hoffai fonitro'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn erbyn cyllidebau dirprwyedig

ysgolion, y gwersi a ddysgwyd o gyflwyno'r Cynllun Taliadau Costau Byw a thaliadau parcio ar gyfer deiliaid bathodyn glas.

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r heriau o recriwtio athrawon Cymraeg eu hiaith i'r Fwrdeistref Sirol gael eu cynnwys yng nghwmpas yr adroddiad ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u hystyried ar gyfer eu hychwanegu at y Flaenraglen Flynyddol yn y Cyfarfod Cynllunio Craffu nesaf ar gyfer SOSC 1

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i gynnydd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gael ei adolygu gan SOSC 2 gan ganolbwyntio'n benodol ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yn hynny.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch hyd yr amser cyn cael ymatebion i rai o'i argymhellion a dywedodd y Swyddog Craffu fod eitemau hŷn wedi cael eu dilyn a Chyfarwyddwyr wedi cael eu hatgoffa bod angen darparu ymatebion amserol.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3, a gellid edrych ar hyn eto yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r ceisiadau uchod, yn nodi'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, yn dilyn eu hystyried yn eu Cyfarfodydd Pwyllgor diweddaraf yn Atodiad B, C a D, ac yn nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau E, F, G a H.

60. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45